



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

# Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan Newyddion y Rhwydwaith Gofal yn y Gymdogaeth (NCN)

RHIFYN 6: Awst - Hydref 2024

## Croeso i rifyn chwech o'n cylchlythyr chwarterol.

Croeso i'r rhifyn diweddaraf o'n cylchlythyr chwarterol, lle rydyn ni'n dod â'r diweddariadau, y mewnwelediadau a'r newyddion cyffrous diweddaraf i chi gan Rwydweithiau Gofal Cymdogaeth (NCNs) ar draws ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan!

Ein nod yw rhoi gwybod i chi am y gwaith rhagorol sy'n digwydd yn ein cymuned. O fentrau arloesol a llwyddiannau lleol i ddigwyddiadau sydd ar y gorwel, y cylchlythyr hwn yw eich canllaw hanfodol ar gyfer cadw mewn cysylltiad.



Rydym yn hynod ddiolchgar am eich cefnogaeth a'ch cyfranogiad parhaus. Wrth i chi ddarllen y rhifyn hwn, rydym yn gobeithio y byddwch yn teimlo ei fod yn addysgiadol ac yn ysbrydoledig. Diolch am fod yn rhan o'n taith!

I gael rhagor o wybodaeth am y rhaglen NCN, ewch i [Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth \(NCNs\) - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan \(gig.cymru\)](#), neu anfonwch e-bost at: [abb.strategicchangeteam@wales.nhs.uk](mailto:abb.strategicchangeteam@wales.nhs.uk)

Cynnwys:

Tudalen 1

Cyflwyniad

Tudalen 2

NCN Blaenau Gwent

Tudalen 3

NCN Caerffili

Tudalen 4

NCN Sir Fynwy

Tudalen 5

NCN Casnewydd

Tudalen 6

NCN Torfaen

Tudalen 7-8

Diweddariad Cyfathrebu ac  
Ymgysylltu NCN

### Beth yw Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth (NCN)?

Mae Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth (NCNs) yn dwyn ynghyd wasanaethau iechyd a gofal lleol o fewn ardal ddaearyddol benodol, ac maent fel arfer yn gwasanaethu poblogaethau o 40,000 i 60,000 o bobl.

Mae pob NCN yn cynnwys Meddygon Teulu, Deintyddion, Optometryddion, Fferyllwyr, Nyrsys Cymunedol, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd (AHPs), ac arbenigwyr Gofal Cymdeithasol, ac felly maent yn cyfuno ystod eang o arbenigeddau.

Mae gweithio o fewn NCN yn gwella cydlyniant gan sicrhau y gellir asesu anghenion poblogaeth yn well, blaenoriaethu gwelliannau i wasanaethau, a datblygu atebion lleol wedi'u teilwra er mwyn gwella iechyd a lles unigolion a chymunedau.



Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board



## Blaenau Gwent

### Canmoliaeth i Ddigwyddiad Lles Dynion ym Mlaenau Gwent

Roedd Digwyddiad Lles Dynion a gynhaliwyd yn ddiweddar ym Mlaenau Gwent, mewn partneriaeth â Men's Den, yn dilyn arolwg gan y Rhwydwaith Lles Integredig gyda'r nod o ddeall sut mae dynion lleol eisiau cymorth gyda'u hiechyd a'u lles. Cafwyd adborth cadarnhaol i'r digwyddiad, a fynychwyd gan 27 o bobl.

Rhoddodd Dr Simon Donovan, Arweinydd Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth Blaenau Gwent, gyflwyniad da ar sgrinio iechyd, iechyd meddwl, gweithgaredd corfforol, a lles cyffredinol, ac fe'i canmolwyd am ei arddull hawdd mynd ato.

Darparodd wyth sefydliad partner wybodaeth am wasanaethau lleol, a disgrifiodd y rhai a oedd yn bresennol y digwyddiad fel un "addysgiadol," "ysgogol," a "defnyddiol". Bydd digwyddiadau yn y dyfodol yn 2025 yn mynd i'r afael â phynciau megis atal hunanladdiad, rheoli straen a dibyniaeth.



### 'Gofod Lles Cymunedol 'Sit A WHILE'

Agorwyd gofod lles cymunedol newydd yn swyddogol ym Mrynawr fis diwethaf, gan drawsnewid rhan adfeilledig yn Adeilad Lles Mind ar Stryd Caerwrangon. Dan arweiniad Rhwydwaith Lles Integredig Blaenau Gwent (IWN), daeth y prosiect â phum sefydliad lleol ac aelodau o'r gymuned ynghyd i greu lle croesawgar i bawb.

Roedd y digwyddiad yn dathlu'r cydweithio sy'n digwydd rhwng BG a Mind Torfaen, Inside Out Cymru, Men's Den, Prosiect Gobaith y Gymuned, a Teuluoedd yn Gyntaf, a helpodd i droi'r gofod sydd wedi'i esgeuluso yn hafan fywiog sydd wedi'i haddurno gan furluniau. Roedd mainc a oedd wedi'i hadfer gan Men's Den yn gyffyrddiad arbennig. Mae'r gofod, a elwir yn "Sit A WHILE," bellach ar agor a gall trigolion ymlacio a chysylltu yno.



### Blaenau Gwent yn cynnal digwyddiad menopos llwyddiannus



Cynhaliwyd Digwyddiad Menopôs i Fenywod yng Nglyn Ebwy yn ddiweddar, yn dilyn Arolwg Lles Menywod Blaenau Gwent, a amlygodd alw mawr am wybodaeth am y menopos. Wedi'i drefnu gan Rhwydwaith Lles Integredig Blaenau Gwent, roedd y digwyddiad yn cynnig mewnwelediadau i fenywod o symptomau, triniaethau, ac roedd cyfle i ofyn cwestiynau mewn amgylchedd gefnogol.

Rhoddodd Nikki Noble, Nyrs Ymgynghorol mewn Iechyd Rhywiol ac Atgenhedlol, gyngor arbenigol ar reoli'r menopos, ochr yn ochr â chyflwyniad ar ymwybyddiaeth ofalgar a lles emosiynol. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn, ac roedd llawer yn galw am fwy o sesiynau. Mae digwyddiadau yn y dyfodol yn cael eu cynllunio ar gyfer mis Ionawr a mis Mawrth 2025.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â [kathryn.cross@wales.nhs.uk](mailto:kathryn.cross@wales.nhs.uk)



GIG  
CYMRU  
NHS  
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Aneurin Bevan  
University Health Board

## Caerffili

### Peilot Brechu Ffliw Ilwyddiannus ar gyfer plant 2 i 3 oed gyda Meddygfa Cwm Rhymni

Er mwyn cynyddu'r nifer o blant 2-3 oed sy'n cael eu brechu rhag y ffliw yn Rhymni ar gyfer 2024/25, treialodd Tîm Rheoli Caerffili brosiect gyda Meddygfa Cwm Rhymni, gan fynd â chlinigau ffliw yn uniongyrchol i feithrinfeydd lleol a lleoliadau cyn-ysgol. Dechreuodd nyrsys practis cymwys, gyda chefnogaeth HCSWs, ddarparu brechlynnau ffliw trwynol ar 18 Medi, gyda'r nod o'u cwblhau erbyn 4 Hydref.

Yn dilyn anfon llythyrau a ffurflenni caniatâd, cafodd 180 o blant ganiatâd eu rhieni. Erbyn 4 Hydref, ymwelwyd â 12 lleoliad, a rhoddwyd 139 o frechlynnau. Collodd rhai plant sesiynau a byddant yn mynychu clinigau yn y dyfodol.

Trwy'r peilot gwelwyd gwelliant o 280% o'i gymharu â'r nifer a gafodd eu brechu y llynedd. Mae mwy o glinigau dros dro ar gyfer mopio i fyny wedi cael eu cynllunio er mwyn targedu'r plant sydd ar ôl. Mae hyn yn rhoi cadarnhad y gall dod â chlinigau i feithrinfeydd roi hwb sylweddol i gyfraddau brechu yn y grŵp oedran hwn.

### Rhaglen Brentisiaethau yng Nghaerffili

Mae Ardal a NCNS Caerffili yn cefnogi rhaglen Prentisiaeth BIPAB, sy'n galluogi unigolion i weithio ym maes gofal iechyd heb sgiliau a phrofiad hanfodol blaenorol.

Yng Nghaerffili, mae prentisiaid yn cael eu cyflogi fel Cydlynwyr MDT tra'n gweithio tuag at gymhwyster prentisiaeth fodern a gydnabyddir yn genedlaethol. Mae'r rhaglen hon yn gwneud y mwyaf o botensial gweithlu'r dyfodol drwy alluogi staff profiadol i drosglwyddo eu sgiliau a darparu cefnogaeth drwy gydol y broses ddysgu.

Mae prentisiaethau'n canolbwyntio ar gymwysterau Lefel 2, megis NVQ Lefel 2, ynghyd â Sgiliau Hanfodol. Maent yn chwarae rhan hanfodol wrth ddatblygu gweithlu abl er mwyn sicrhau'r gofal gorau i gleifion.

Mae Caerffili yn croesawu Rory Draper i'r tîm yn Nhrethomas fel Cydlynnydd MDT.

Yn y lle cyntaf, mae cynllun peilot MDT yn cael ei lansio yn ardaloedd NCN Dwyrain a De Caerffili, gan gydweithio ag ymarfer cyffredinol i wella ansawdd gofal a mynediad, tra'n gwella gwaith tîm ar draws partneriaid. Mae'r model yn rhoi pwyslais ar gynllunio iechyd mewn modd rhagweithiol a phersonol ar gyfer unigolion sydd ag anghenion cymhleth, a chaiff ei gydlynwyr trwy dimau amlddisgyblaethol.

Mae'r tîm yn gyffrous i gefnogi Rory drwy gydol ei brentisiaeth wrth iddo ddechrau ei yrfa yn y GIG.

### Sesiynau Lles Dro ym Mwrdeistref Caerffili

#### WELLBEING POP-UP SESSIONS



Come and have a chat to us about health and wellbeing support and services (including nature wellbeing and oral hygiene)

Monday 4th Nov 2-4pm at Ystrad Mynach Library  
Tuesday 5th Nov 12.30-2.30pm at Rhymney Library  
Monday 11th Nov 10-12pm at Bargoed Library  
Tuesday 12th Nov 10-12pm at Blackwood Library  
Tuesday 19th Nov 10-12pm at Risca Library  
Thursday 21st Nov 10.30-12.30pm at New Tredegar Library  
Tuesday 26th Nov 10-12pm at Caerphilly Library



Ym mis Tachwedd, mae IWN Caerffili, Lles Natur Caerffili, Deintyddiaeth Gymunedol, Gofal Caerffili a DEWIS yn cynnal sesiynau Lles Dros Dro Lles mewn llyfrgelloedd ledled y fwrdeistref, gan gynnig cyngor ar wasanaethau iechyd a lles. Lles Natur Caerffili: Hyrwyddo gweithgareddau awyr agored ar gyfer gwell iechyd corfforol a meddyliol.

Deintyddiaeth Gymunedol Codi ymwybyddiaeth ar gyfer Mis Gweithredu Canser y Genau a chynnig cyngor ar iechyd y geg. Caerphilly Cares: Darparu cymorth ar arian, cyflogaeth ac unigrwydd. Mae Cysylltwyr Lles yn helpu pobl i ddod o hyd i weithgareddau lleol.

DEWIS: Cynnig cyngor ar bob agwedd ar les.





## Sir Fynwy

### Clinigau Fflebotomi Gofal Eilaidd Sir Fynwy

Daeth GMS Gogledd Sir Fynwy a Chydweithredwyr Proffesiynol Nyrso at ei gilydd i ddarparu Gwasanaeth Fflebotomi Gofal Eilaidd yng Nghyfleuster Iechyd a Chymdeithasol Dyffryn Mynwy. Darperir y gwasanaeth newydd yn y Gogledd gan Hayley Brueford, Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd o fewn y Tîm Nyrso Cymunedol, ac mae'n rhedeg y clinig ddwywaith yr wythnos. Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal yn nes at y cartref ac yn darparu gwasanaeth symlach i drigolion Trefynwy sydd angen rheolaeth gwaed barhaus gan wasanaethau gofal eilaidd; cardioleg, gwasanaeth cyn-llawfeddygaeth brys, cyn ac ar ôl cemotherapi, Amheuaeth o Ganser Brys (USC), haematoleg a llawer mwy. Gall pawb sydd dros 12 oed gael eu cyfeirio at y fenter hon.

### Rheolwr Ward Dyffryn Mynwy wedi'i enwebu ar gyfer Gwobr Ysbyty

Mae gan Kelly gyfoeth o wybodaeth nyrso ac mae ei chefnidir mewn gofal eilaidd a nyrso ardal. Mae Kelly wedi mynd ati'n ddiymdroi gyda chefnogaeth staff y ward a'r tîm rheoli. Mae Ward Trefynwy, Dyffryn Mynwy yn ward arloesol dan arweiniad meddygon teulu sy'n darparu gofal i gleifion sydd ag anghenion adsefydlu ac anghenion lliniarol ar adegau. Mae ffocws ar gynllunio i ryddhau cleifion a threfniadau rhyddhau cymhleth, mae Kelly a staff y ward yn ymfalchïo mewn rhoi cleifion a'u perthnasau yn gyntaf. Mae Trefynwy yn uned 21 gwely sydd â chleifion gwrywaidd a benywaidd, ac mae Kellym, sy'n llawn egni, yn gweithio'n agos gyda'r timau gwasanaeth integredig ac mae ganddi berthynas waith ardderchog gyda phob aelod o'r MDT. Mae hi bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd o wella'r gofal a ddarperir mewn amgylchedd graddedig o fodel iechyd a gofal cymdeithasol integredig. Dywedodd Leanne Watkins Pennaeth Cynorthwyol Gwasanaeth Sir Fynwy, "Mae wedi bod yn bleser cefnogi Kelly drwy ei misoedd cyntaf yn y rôl hon ac rydym yn gobeithio y bydd hi'n mynd o nerth i nerth ac yn parhau i gefnogi BIPAB trwy gydol ei gyrfa."

### Dathlu Rhagoriaeth: Sue Tranka yn cyflwyno Gwobrau CNO

Ymunwch â ni i ddathlu staff nyrso a bydwreigiaeth Rochelle Walters, Alison Rylan a Helen Crosbie. Rhoddwyd Gwobr Rhagoriaeth y Prif Swyddog Nyrso i bob un ohonynt ym mis Medi gan y Prif Swyddog Nyrso Sue Tranka. Mae'r gwobrau hyn yn gwobrwyo cyfraniadau sylweddol a rhagorol a wneir gan staff nyrso a bydwreigiaeth. Roedd ymweliad Sue hefyd yn rhan o ymweliad wedi'i drefnu â'r bwrdd iechyd, a heddiw bu iddi ymweld â wardiau Is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu





## Casnewydd

### Grwpiau Iechyd a Lles ar gyfer Grwpiau Ethnig Amrywiol yng Nghasnewydd

Mae Casnewydd yn ddinas amlddiwylliannol ac yno mae'r ail nifer uchaf o gymunedau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, gan gynnwys 48 iaith lafar ar draws 20 o gymunedau. Mae llawer o'r cymunedau hyn yn ofni sefydliadau statudol, ac mae hyn yn arwain at gamdealltwriaeth ac unigedd. Gwneir hyn yn waeth gan rwystrau iaith sy'n atal mynediad at wasanaethau hanfodol a chyfathrebu ag asiantaethau megis ysgolion a meddygon teulu.

Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, mae ein NCN wedi comisiynu Kid Care 4 U ([www.kidcare4u.co.uk](http://www.kidcare4u.co.uk)) i gefnogi grwpiau menywod a darparu gwasanaethau cyfieithu ar y pryd tan fis Mawrth 2025. Byddant yn cynnig gweithgareddau iechyd a lles mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghasnewydd ar gyfer grwpiau ethnig sydd ag incwm isel sy'n wynebu problemau iechyd. "Bydd ein prosiect yn ymgysylltu â menywod o saith cefndir ethnig amrywiol yng Nghasnewydd, gan gynnig grwpiau, gweithdai wythnosol a chefnogaeth un-i-un. Ein nod yw grymuso aelodau'r gymuned i sicrhau newid yn eu bywydau wrth ystyried eu hanghenion diwylliannol, crefyddol ac iaith, gan eu helpu i ddatblygu sgiliau i reoli straen a chael mynediad at wasanaethau."

### Cyfeillion Lles - Cysylltwyr Allweddol mewn Cymunedau

Nod y Rhwydwaith Lles Integredig yw creu dull cyfannol o atal a mynd i'r afael â phroblemau sy'n ymwneud ag iechyd. Er bod hyn yn swnio'n gymhleth, mae'n eithaf syml!

Mae'r Rhwydweithiau (IWN) yn cynnwys pawb—cymdogion, grwpiau cymunedol, sefydliadau cyhoeddus, ac ysgolion— yn y gwaith o rannu gwybodaeth am gadw'n iach a chysylltiedig.

Mae'r IWNs yn ymgysylltu â grwpiau lleol, ysgolion a chartrefi gofal i nodi cymorth ac adnoddau sy'n bodoli eisoes, yna hyrwyddo'r cysylltiadau hyn i helpu gwasanaethau i dyfu a chyrraedd mwy o bobl. Maent yn gwahodd y cyhoedd i ymuno â chyfarfodydd rhwydwaith, gan eu grymuso i lunio gwasanaethau lleol.

Wrth i'r IWN ehangu, mae llawer o ffyrdd y gall pobl gymryd rhan, hyd yn oed trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Gall gweithredoedd bach eich gwneud yn 'Gyfaill Lles', ac mae hyn yn hanfodol o ran adeiladu cymuned gryfach. Gyda'n gilydd, gallwn greu cymunedau iachach a hapusach.

Mae Cyfeillion Lles yn cyfeirio eraill at gefnogaeth a chyfleoedd (Academi Presgripsiynu Cymdeithasol, 2024), gan chwarae rhan hanfodol wrth gysylltu pobl yn eu cymunedau.

### Canolfan Iechyd a Lles 19 Hill - Diweddariad yn y Senedd

Hoffem rannu gyda chi [Ddolen fideo](#) o John Griffiths, AC, yn siarad yn y Senedd, am y model gwasanaeth yng Nghanolfan Iechyd a Lles 19 Hills, yn dilyn ei ymweliad â'r ganolfan ar 4ydd Hydref 2024.



### Digwyddiad Ymgysylltu Cymunedol Adfywio Ringland

Cynhaliodd Newport City Homes, Kier, Lovell a phartneriaid eraill ddigwyddiad cymunedol llwyddiannus ar 19 Medi yn Hyb Cymunedol Ringland, er mwyn rhannu gwybodaeth am y datblygiadau newydd sy'n digwydd ar draws Campws Ringland. Yno o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan roedd Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Deintyddiaeth Gymunedol, Teulu a Therapiau, Rhwydwaith Lles Integredig, Tîm Ardal Casnewydd a Meddygfa Parc a oedd yn cynnig Gwiriad Iechyd ar gyfer aelodau'r gymuned





## Torfaen

### Torfaen yn Dathlu Hyrwyddwyr Cymunedol

Ddydd Gwener, 18 Hydref 2024, cynhaliwyd Gwobrau Cymunedol a Gwirfoddolwyr yng Ngwesty'r Parkway yn Nhorfaen, er mwyn ddathlu gwirfoddolwyr a sefydliadau lleol. Daeth y digwyddiad â thua 200 o fynychwyr at ei gilydd, gan gynnwys cynrychiolwyr o wahanol sefydliadau gwirfoddol a busnesau.

Roedd beirniaid annibynnol wedi dewis tri i fod yn y rownd derfynol ar gyfer pob categori, a chyhoeddwyd yr enillwyr canlynol ar y noson:

- Gwirfoddolwr Oedolion: Andrew Betty
- Gwirfoddolwr Ifanc: Leo Morton
- Ymddiriedolwr y Flwyddyn: Matthew Cox
- Gwirfoddolwr Chwaraeon/Grŵp: Rob Davies
- Gwirfoddolwr Iechyd: Wendy Edwards
- Gwirfoddolwr/Grŵp Amgylcheddol: Mark Sullivan (Grwp 46 i 5 Locks Canal)
- Calon y Gymuned: For Dads by Dads
- Busnes y Flwyddyn: Coffi Kitoko
- Gwirfoddolwr/Grŵp Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth: Côr Meibion Pontnewydd
- Grŵp Plant a Phobl Ifanc: New Inn Juniors AFC
- Arweinydd Cymunedol: Dawn Clayton

Amlygodd y noson gyfraniadau hanfodol unigolion a grwpiau, gan ysbrydoli pawb a fynychodd ac atgyfnerthu ysbryd cymuned yn Nhorfaen.

### Rhestr Darllen yn Dda ar gyfer Dementia

Mae'r rhestr 'Darllen yn Dda ar gyfer Dementia' bellach ar gael yn Llyfrgell Cwmbrân. Mae'r casgliad hwn yn argymhell llyfrau ar gyfer y rheiny sy'n byw gyda dementia, gan gynnig gwybodaeth, cyngor, cefnogaeth a straeon personol dibynadwy. Mae hefyd yn cynnwys teitlau ar gyfer aelodau o'r teulu, ffrindiau a gofalwyr.

Mae Darllen yn Dda yn rhaglen a ddatblygwyd gan The Reading Agency mewn partneriaeth â Libraries Connected, a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr a Llywodraeth Cymru. Mae wedi cael ei gyd-greu gyda Innovations in Dementia.

Gellir cael gafael ar y casgliad yn ddigidol gan ddefnyddio'r ddolen isod:

[Trosolwg o deitlau \(Cymru/ddwyieithog\) - Darllen yn Dda ar gyfer dementia \(2024\) - The Reading Agency.](#)

### Grwpiau Cymorth Strôc am ddim ar gael yn Nhorfaen

Mae tri grŵp cymorth am ddim ar gael yn Nhorfaen ar gyfer goroeswyr strôc a'u teuluoedd. Gan weithredu yng Ngogledd a De Torfaen, mae'r grwpiau hyn yn darparu amgylchedd groesawgar ar gyfer adferiad.

Mae'r grwpiau yn agored i unrhyw un sy'n cael eu heffeithio gan strôc, ac mae'n cynnig cefnogaeth gan gymheiriaid a chyfleoedd o ran cysylltiadau cymdeithasol. Gellir mynychu'n rhad ac am ddim, ac mae yno awyrgylch cyfforddus i bawb.

I'r rheiny sy'n teimlo'n bryderus am ymuno, gall y tîm Cysylltwyr Cymunedol yn Nhorfaen ddarparu cymorth ac atgyfeiriadau i helpu unigolion i gymryd y cam cyntaf.

I gael gafael ar gymorth neu i wneud atgyfeiriad, cysylltwch â'r Cysylltwyr Cymunedol yn [communityconnectors@torfaen.gov.uk](mailto:communityconnectors@torfaen.gov.uk) neu ffoniwch 01633 742397.

**Come along to our stroke group**

**New Inn Stroke Support Group**  
Stroke changes lives in an instant. Our group inspires, supports and helps each other through social and recreational activities.

**Contact us:**  
Name: Cheryl Harvey Email: [harvey-i3@sky.com](mailto:harvey-i3@sky.com)  
Phone: 07500 908082  
Stroke Helpline: 0303 303 3100  
Website: [Stroke.org.uk](http://Stroke.org.uk)

Every Tuesday 10.30am till 12.15pm  
St Mary's Church Panteg Church Hall  
134 The Highway, New Inn, Pontypool NP4 0PH

In support of the  
**Stroke association**



## Cyfathrebu ac Ymgysylltu NCN



### Cyflwyniad Sgrin BIPAB - DIWEDDARWYD Hydref 2024

Mae cyflwyniad sy'n cynnwys negeseuon iechyd, ymgyrchoedd a gwybodaeth am wasanaethau wedi'i greu er mwyn iddo gael ei ddefnyddio ar sgriniau sy'n wynebu'r cyhoedd. Mae'r cyflwyniad yn para am 29 munud, mae'n ddwyieithog a gellir ei chwarae gyda/heb sain gan ei fod wedi'i isdeitlo.

Fformat y ffeil yw MP4 a gellir ei osod i'w chwarae ar ddolen.

Gallwch lawrlwytho'r ffeil [yma](#)

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, e-bostiwch [lisa.orford@wales.nhs.uk](mailto:lisa.orford@wales.nhs.uk)

### Gwneud Apwyntiadau gyda Meddygfeydd Teulu yng Ngwent

Mae adnodd newydd ar gael i helpu cleifion Gwent i ddod o hyd i ffyrdd amgen o wneud apwyntiadau gyda'u meddygfeydd. Mae'r tabl, sy'n rhestru'r holl feddygfeydd teulu ledled Gwent a'r gwahanol ddulliau o drefnu apwyntiad, bellach ar gael ar wefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (BIPBC) [Meddygon Teulu - Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan \(gig.cymru\)](#)

Wedi'i diweddarau gan feddygfeydd, mae'r daenlen yn cynnig ystod o opsiynau cyswllt i gleifion a allai ei chael hi'n anodd cysylltu A'u meddygfa dros y ffôn. Yn ogystal â'r dull traddodiadol o drefnu apwyntiad dros y ffôn, mae'r adnodd yn tynnu sylw at ffyrdd eraill o drefnu apwyntiadau, megis dros e-bost, Ap y GIG neu wyneb yn wyneb.

Nod yr adnodd newydd hwn yw ei gwneud yn haws i gleifion gael mynediad at eu meddyg teulu, yn enwedig yn ystod cyfnodau prysur pan mae llinellau ffôn yn cael eu llethu.

[Tabl Trefnu apwyntiadau meddyg teulu](#)

Sylwer: Gall opsiynau trefnu apwyntiadau newid ar fyr rybudd oherwydd problemau staffio.

### Canllawiau ac Asedau Brand ISPB nawr ar gael i'w lawrlwytho

Mae Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu Byrddau Partneriaeth Gwasanaethau Integredig Gwent (ISPBs), canllawiau brand ac asedau bellach ar gael ar safle Pulse yr NCN a gwefan Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent. Mae'r adnoddau hyn ar gael i'w lawrlwytho ar unwaith, ac maent yn cynnwys deunyddiau allweddol i sicrhau cysondeb ar draws cyfathrebiadau ISPB.

Yn gynwysedig yn yr asedau mae logos ar gyfer pob templed, PowerPoint a Word, a chefnidiroedd Teams yr ISPB Mae'r adnoddau hyn wedi'u cynllunio i helpu timau ar draws y rhwydwaith ISPB i gynnal presenoldeb brand proffesiynol a chydlynol.

I gael mynediad at y deunyddiau hyn, ewch [dudalennau'r ISPB ar Pulse y NCN](#) neu [dudalennau'r ISPB ar wefan y RPB](#).



## Dewch o hyd i fanteision bod yn Arweinydd Cydweithredol mewn Optometreg

Mewn [fideo byr](#) Mae Geraint Jones yn tynnu sylw at rôl allweddol arweinydd cydweithredol mewn optometreg, sy'n rhan annatod o waith Rhwydweithiau Gofal Cymdogaeth (NCNs). Fel arweinydd, rydych chi'n casglu mewnwelediadau gan optometryddion lleol a darparwyr gofal iechyd, gan helpu i lunio gwasanaethau sy'n diwallu anghenion y gymuned.

Mae arweinwyr cydweithredol yn gyrru arloesedd, yn rhannu arferion gorau, ac yn gweithio ar draws ffiniau gwasanaethau i wella safonau gofal. Mae'r dull cydweithredol hwn yn gwella canlyniadau cleifion ac yn cefnogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu'r gofal gorau posibl.



## Codi Proffil yr NCNs

Mae safle Pulse yr NCN yn parhau i fynd o nerth i nerth, gyda 12,289 o ymweliadau yn ystod y 90 diwrnod diwethaf (hyd at 23/10/24), ac mae hyn yn adlewyrchu ei boblogrwydd cynyddol. Mae'r wefan yn chwarae rhan allweddol wrth godi proffil NCNs a'u gwaith anhygoel. Mae'n cynnwys diweddariadau newyddion rheolaidd, dyddiadau allweddol, adnoddau ymgyrchu, a mwy er mwyn cefnogi defnyddwyr i gael mynediad at wybodaeth hanfodol a digwyddiadau cynllunio.

[Rhwydwaith Gofal Cymdogaeth \(NCN\) - Cartref \(sharepoint.com\)](#)



## Natalie Janes yn cael ei Hanrhydeddu â Theitl Nyrs y Frenhines

Llongyfarchiadau mawr i Natalie Janes am dderbyn teitl mawreddog Nyrs y Frenhines gan Sefydliad Nyrsio'r Frenhines (QNI). Mae'r teitl yn cydnabod ei hymroddiad i ddarparu gofal nyrsio cymunedol eithriadol. Mynegodd Natalie ei balchder wrth ymuno â'r rhwydwaith uchel ei pharch o weithwyr proffesiynol sydd wedi ymrwymo i wella safonau gofal: "Mae'n anrhydedd mawr i mi dderbyn y teitl hwn. Mae'n fy ysbrydoli i barhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r rhai rwy'n eu gwasanaethu."

Canmolodd Lloyd Hambridge a Lucy Kings hefyd gyflawniad Natalie, gan gydnabod ei hymrwymiad i ofal cymunedol rhagorol. Da iawn, Natalie!



Mae pob rhifyn o'n cylchlythyr chwarterol ar gael ar [Wefan BIPAB](#).

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r straeon dan sylw neu os ydych am gael eich ychwanegu at ein rhestr bostio er mwyn derbyn y cylchlythyr hwn, anfonwch e-bost at [lisa.orford@wales.nhs.uk](mailto:lisa.orford@wales.nhs.uk).